

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Woodlands /
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae
Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 21 Mawrth
2022

Dyddiad cyhoeddi: 22 Mehefin
2022

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan fyddant wedi'u cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	28
4.	Beth nesaf?	33
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	35
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	36
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	39
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	40

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Mae cleifion wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisiâu a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Woodlands yn 18 Victoria Gardens, Castell-nedd, SA11 3BE, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, ar 21 Mawrth 2022.

Roedd ein tîm arolygu yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Archwiliodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015), a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o bractisau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis deintyddol yn cynnig gofal diogel ac effeithiol.

Gwelsom fod y staff yn trin cleifion ag urddas a pharch ac yn ymdrechu i sicrhau bod cleifion yn derbyn gwasanaeth cyfeillgar sy'n diwallu eu hanghenion.

Fodd bynnag, canfuom fod angen gwelliant yn y practis o ran llywodraethu, sicrhau bod cleifion a staff yn cael eu hamddiffyn rhag tân, a chasglu adborth gan gleifion am y gwasanaeth.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymddangos yn hapus yn eu rolau ac yn gweithio'n dda gyda'i gilydd fel tîm
- Gwelwyd bod deintyddiaeth yn dda
- Roedd y staff yn gyfeillgar ac yn groesawgar i gleifion, ac yn wirioneddol ofalgar am eu profiad yn y practis
- Roedd offer meddygol brys a chyffuriau'n cael eu gwirio'n wythnosol
- Cadwyd at ganllawiau atal COVID-19
- Roedd urddas a chyfrinachedd y cleifion yn cael eu cynnal

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Hyfforddiant staff mewn ymwybyddiaeth a diogelwch tân
- Gweithredu system ffeilio effeithiol, ddiogel ac effeithlon ar gyfer dogfennau sy'n ymwneud â rhedeg y practis o ddydd i ddydd
- Gweithredu system effeithiol ar gyfer casglu adborth y cleifion
- Archwilio o fewn y practis
- Cofnodi cofnodion deintyddol y cleifion
- Cyfarfodydd staff rheolaidd ac arfarniadau blynyddol

Nodwyd achosion o dorri'r rheoliadau gennym yn ystod yr arolygiad hwn o ran gwiriadau cyn cyflogi staff, diogelwch tân, casglu barn y cleifion, hyfforddiant gorfodol, ac atal a rheoli heintiau. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad C. Er nad yw hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, disgwylir i'r unigolyn cofrestredig gymryd camau ystyrlon i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan y gallai methiant i wneud hynny arwain at ddiffyg cydymffurfedd â rheoliadau.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Woodlands yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Castell-nedd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, hylenydd deintyddol,¹ rheolwr practis, tair nyrs ddeintyddol a nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant. Ar adeg yr arolygiad hwn, roedd y practis yn y broses o recriwtio nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant ychwanegol.

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol y GIG a phreifat.

¹ Mae "hylenydd deintyddol" yn weithiwr gofal deintyddol proffesiynol sydd wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae hylenydd deintyddol yn canolbwyntio ar sicrhau a darparu hylendid y geg a deintyddol ac ar wella iechyd a hylendid y deintgig a'r geg trwy amrywiaeth o opsiynau ataliol a thriniaeth.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod y practis yn gwerthfawrogi profiad y claf ac yn ymdrechu'n galed i sicrhau bod y cleifion yn cael profiad cadarnhaol yn y practis deintyddol.

Gwelsom fod y staff yn groesawgar ac yn gyfeillgar i gleifion, gan eu gwneud yn gartrefol.

Fodd bynnag, canfuom y gallai'r practis wella'r wybodaeth sydd ar gael yn Gymraeg ac mewn fformatau eraill i gynorthwyo'r rhai a allai fod ag anhawster neu angen cyfathrebu.

Cadw'n iach

Hyrwyddo, diogelu a gwella iechyd

Roedd y practis wedi tynnu'r taflenni gwybodaeth i gleifion a oedd ar gael yn flaenorol i gleifion fel ymateb i fesurau atal a rheoli heintiau oherwydd pandemig COVID-19. O ganlyniad, nid oedd taflenni hybu iechyd y geg ar gael i gleifion bellach. Yn lle hynny, roedd y gweithwyr deintyddol proffesiynol yn y practis yn darparu cyngor iechyd y geg ar lafar i gleifion. Roedd y practis yn cyflogi hylenydd deintyddol i roi cymorth pellach i'r cleifion hynny a fyddai'n elwa ar driniaeth a chyngor ychwanegol i amddiffyn a gwella iechyd a hylendid y geg.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig ddarparu amrywiaeth o wybodaeth ysgrifenedig i gleifion er mwyn hybu iechyd y geg mewn modd sy'n cyd-fynd â chanllawiau cyfredol COVID-19.

Gofal ag urddas

Gwelsom staff y practis yn cyfarch a chroesawu'r cleifion mewn modd cyfeillgar wrth iddynt gyrraedd y practis.

Gwelsom gleifion yn cael eu trin â drws yr ystafell driniaeth ar gau er mwyn diogelu eu cyfrinachedd. Yn ogystal, roedd gan yr ystafelloedd triniaeth orchuddion ffenestr priodol ar waith i amddiffyn urddas a phreifatrwydd y cleifion.

Cymerwyd galwadau ffôn wrth ddesg y dderbynfa yn ardal yr ystafell aros. Pe byddai claf yn dymuno cynnal trafodaeth breifat dros y ffôn, gellid gwneud hyn yng nghegin y staff gerllaw i atal y cleifion yn yr ystafell aros rhag clywed y sgwrs.

Byddai trafodaeth bersonol o natur gyfrinachol neu breifat yn cael ei chynnal naill ai o fewn un o'r tair ystafell driniaeth neu yng nghegin y staff.

Gwnaethom nodi nad oedd cod moeseg ac ymarfer proffesiynol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'i arddangos yng ngolwg cleifion. Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith gyda staff y practis a chafodd hyn ei gywiro erbyn terfyn yr arolygiad.

Gwybodaeth i gleifion

Darparwyd copi i ni o daflen wybodaeth i gleifion y practis². Darparwyd hon ar gael i'r cleifion ar gais ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.³

Roedd gan y practis bolisi cydsynio ar waith, a oedd mewn ffolder polisïau bwrpasol a gedwir yn y practis.

Roedd y taflenni gwybodaeth yn ymwneud â'r gwahanol fathau o driniaethau ar gael yn y practis wedi cael eu tynnu o'r man aros mewn ymateb i bandemig COVID-19. Dywedwyd wrthym y gellid anfon gwybodaeth drwy'r post neu y gellid darparu dolen i wefan ddibynadwy i'r cleifion pe byddent yn dymuno.

Roedd gwybodaeth am daliadau a ffioedd am driniaethau ar gael i gleifion ar daflen wybodaeth fach yn yr ystafell aros. Yn flaenorol, roedd hon wedi'i gosod ar y wal, ond roedd bellach wedi'i chuddio'n rhannol gan offer eraill yn yr ystafell aros ac felly nid oedd yn hawdd yn anffodus i'r cleifion na'u cynrychiolwyr ei gweld.

² Mae'r daflen wybodaeth i gleifion yn ddogfen ofynnol, fel y nodir yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, sy'n cynnwys crynodeb o'r wybodaeth a geir yn natganiad o ddiben y practis. Mae hon yn ddogfen y dylid ei darparu i'r cleifion ac sy'n nodi'r gwasanaethau a gynigir o fewn y practis deintyddol preifat, gan bwy y cânt eu darparu, a manylion eraill, megis crynodeb o'r weithdrefn gwyno, manylion cyswllt y practis, a'r trefniadau ar gyfer delio â chleifion treisgar a/neu ddifriol.

³ Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yw'r rheoliadau sy'n nodi'r ddarpariaeth ar gyfer deintyddiaeth breifat yng Nghymru.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth am daliadau a ffioedd am driniaethau deintyddol ar gael yn hawdd i'r cleifion a/neu eu cynrychiolwyr.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom dystiolaeth o gynlluniau triniaeth ysgrifenedig a oedd wedi'u cwblhau yng nghofnodion deintyddol y cleifion.

Roedd gan y practis wasanaeth cyfieithu dros y ffôn ar waith a ddarperid gan y bwrdd iechyd.

Ni wnaeth y practis gynnig rhagweithiol⁴ i gleifion ac nid oedd yn arddangos gwybodaeth i annog y cleifion hynny a allai ddymuno cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg i wneud hynny. Roedd gwybodaeth a deunyddiau cyfathrebu ysgrifenedig ar gael yn Saesneg yn unig. Ni holwyd i'r cleifion fel mater o drefn pa iaith oedd orau ganddynt wrth ddefnyddio'r practis deintyddol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau:

- Y gwneir “cynnig rhagweithiol” i'r cleifion, eu cynrychiolwyr ac ymwelwyr
- Y gofynnir yn rheolaidd i gleifion beth yw eu dewis iaith wrth ddefnyddio'r practis deintyddol
- Bod gwybodaeth yn cael ei harddangos i annog y cleifion hynny sy'n dymuno cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg i wneud hynny
- Bod gwybodaeth ar gael yn ddwyieithog i gleifion yn Gymraeg ac yn Saesneg

⁴ Mae “cynnig rhagweithiol” yn golygu y dylid darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg heb i unigolyn orfod gofyn amdano.

Gofal amserol

Dywedwyd wrthym y gellid trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb a bod ceisiadau i weld deintydd penodol yn cael eu bodloni os yn bosib.

Roeddem yn falch o weld bod staff y dderbynfa'n rhoi gwybod i'r cleifion am oedi yn amseroedd yr apwyntiadau, a byddai cleifion yn cael y dewis naill ai i aildrefnu eu hapwyntiad neu i barhau i aros.

Roedd mynediad at driniaeth frys ar gael trwy'r neges wedi'i recordio ar y peiriant ateb. Roedd y practis yn darparu ei ddarpariaeth frys ei hun y tu allan i oriau ar gyfer ei gleifion preifat. Roedd cleifion y GIG yn gallu cael mynediad at driniaeth tu allan i oriau drwy wasanaeth deintyddol brys tu allan i oriau'r bwrdd iechyd lleol.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Yn y sampl o gofnodion cleifion a adolygwyd gennym, gwelsom dystiolaeth fod gofal y cleifion yn cael ei gynllunio yn unol ag anghenion unigol. Trafodwyd opsiynau triniaeth, gan gynnwys, costau gyda chleifion. Cyflogodd y practis deintyddol hylenydd deintyddol i ddarparu cyngor ar hylendid y geg i'r cleifion er mwyn eu hysbysu'n well sut i ofalu am eu dannedd a'u deintgig rhwng apwyntiadau.

Roedd amrywiaeth o gynhyrchion hylendid y geg ar gael i'w prynu o'r practis deintyddol er mwyn hybu iechyd ceg da. Roedd y rhain yn cael eu harddangos mewn cabinet caeedig y tu fewn i'r man aros.

Roedd y datganiad o ddiben⁵ ar gael i'w adolygu ar ddiwrnod yr arolygiad yn grynodedb byr iawn ac nid oedd yn rhestru'r opsiynau triniaeth a gynigir gan y practis, na llawer o'r gofynion eraill a nodir yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Fodd bynnag, roedd taflen wybodaeth gynhwysfawr i gleifion yn

⁵ Mae'r datganiad o ddiben yn ddogfen sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Dylai'r ddogfen hon ar gyfer cleifion fod ar gael yn y practis deintyddol preifat. Dylai gynnwys nodau ac amcanion y practis, manylion cyswllt, ac enw(au) a chymwysterau'r rheolwr/rheolwyr cofrestredig a'r gweithwyr deintyddol proffesiynol eraill sy'n gweithio i'r practis deintyddol preifat a/neu ar ei ran, yn ogystal â strwythur y cwmni, y trefniadau ar gyfer ceisio barn cleifion ac unrhyw gwynion sydd ganddynt, yr oriau agor, a sut mae'r practis yn sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion, yn ogystal â'r math o driniaethau a gynigir gan y practis deintyddol preifat.

rhestru'r gwasanaethau a gynigir ac yn darparu tystiolaeth bod y cleifion yn cael eu trin yn unol ag amodau cofrestriad y practis deintyddol cyffredinol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau bod y datganiad o ddiben yn cydymffurfio â'r rheoliadau sy'n llywodraethu deintyddiaeth breifat yng Nghymru. Rhaid adolygu hwn yn flynyddol a'i ddarparu i AGIC.

Hawliau pobl

Roedd gan y practis bolisi cyfle cyfartal ar waith a oedd yn dangos ymrwymiad i sicrhau bod gan gleifion fynediad at driniaeth deg. Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, roedd y polisi yn cydnabod yr angen i ddarparu triniaeth a gwasanaethau i bob claf waeth beth fo'i nodweddion gwarchoddedig.⁶

Roedd gan y practis bolisi derbyn cleifion newydd fel y bo'n ofynnol gan y rheoliadau. Roedd y polisi hwn yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer derbyn cleifion newydd i'r practis, cymhwysra, a mynediad at driniaeth. Roedd y polisi hefyd yn cynnwys yr hyn y gallai'r cleifion ei ddisgwyl gan y practis.

Wrth ystyried hygyrchedd y practis, gwnaethom nodi bod y practis wedi'i leoli'n gyfan gwbl ar y llawr daear. Er bod gan brif fynedfa'r practis ris mawr i fyny at y drws, roedd y cleifion ac ymwelwyr ag anawsterau hygyrchedd yn gallu defnyddio ail fynedfa i'r practis nad oedd ganddi risiau.

Roeddem yn falch o weld bod gan y practis doiled a oedd yn addas i bobl anabl a chanddo ganllaw cydio wedi'i osod yn y llawr.

Nid oedd gan y practis ddesg dderbynfa isel ac nid oedd dolen glyw ar gyfer cleifion a oedd yn drwm eu clyw. Yn ogystal, nid oedd gwybodaeth ar gael i gleifion mewn Braille, print bras neu fformat hawdd ei ddeall.⁷ Gallai hyn olygu nad oedd anghenion unigol cleifion yn cael eu hystyried wrth ddefnyddio'r practis deintyddol a gallai effeithio'n negyddol ar eu profiad cyffredinol.

⁶ Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn drosedd gwahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd nodwedd warchoddedig. <https://www.equalityhumanrights.com/en/equality-act/protected-characteristics>

⁷ Mae "fformat hawdd ei ddeall" yn fformat a grëwyd i helpu pobl ag anableddau dysgu i ddeall gwybodaeth yn hawdd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau bod anghenion unigol cleifion yn cael eu hystyried wrth ddefnyddio'r practis deintyddol a gwneud trefniadau addas i liniaru unrhyw anawsterau hygrychedd.

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gan y practis bolisi cwynion a oedd yn bodloni'r gofynion a nodir yn y rheoliadau. Roedd manylion ynghylch sut i wneud cwyn wedi'u darparu mewn hysbysiad a oedd ar gael yn y man aros ac ar daflen wybodaeth i gleifion y practis. Roedd manylion am sut i uwchgyfeirio cwyn i gyrrff perthnasol hefyd wedi'u cynnwys.

Byddai rheolwr y practis yn delio â chwynion yn y lle cyntaf ac yna byddent yn cael eu huwchgyfeirio at y naill neu'r llall o'r rheolwyr cofrestredig pe bai angen.

Gwelsom ei bod yn well gan y practis gasglu adborth gan gleifion mewn modd anffurfiol, gan groesawu sylwadau ac awgrymiadau llafar gan y cleifion. Fodd bynnag, nid oedd system ar waith i gofnodi'r rhain.

Nid oedd gan y practis system ar waith ychwaith i gasglu adborth ffurfiol yn rheolaidd. Dywedwyd wrthym nad oedd adborth ffurfiol wedi'i gasglu ers dechrau pandemig COVID-19. Roedd hyn yn golygu nad oedd cyfleoedd i nodi meysydd i'w gwella yn y practis yn cael eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig wneud y canlynol:

- Gweithredu system addas i gasglu cwynion ac adborth llafar/anffurfiol er mwyn nodi themâu a thueddiadau a sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i wella'r gwasanaeth

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, gydag un maes i'w wella yn ymwneud ag ardal storio yn y practis.

Gwelsom fod y cleifion yn cael gofal deintyddol rhagorol a bod pob aelod o'r tîm deintyddol wedi ymrwymo i ddarparu gofal diogel.

Roedd y practis deintyddol yn dilyn canllawiau COVID-19 ac yn cydymffurfio â chanllawiau a gweithdrefnau rheoli meddyginiaethau.

Roedd angen gwella'r canllawiau diogelwch tân yn y practis, oherwydd, ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oedd asesiad risg ar gyfer diogelwch tân ar waith.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, canfuom fod y practis deintyddol yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Yn fewnol, roedd y practis yn olau ac yn awyrog, ac roedd archwiliad amgylcheddol cynhwysfawr wedi cael ei gynnal yn ddiweddar.

Nid oedd y practis bellach yn gweithredu polisi drws clo, yn unol â'r llacio'n ddiweddar ar gyfyngiadau'n gysylltiedig â COVID-19. Gofynnwyd i gleifion wisgo masg wrth fynychu a chynhigiwyd hylif diheintio dwylo iddynt wrth ddesg y dderbynfa yn y man aros. Roedd sgriniau plastig wedi'u gosod wrth ddesg y dderbynfa i amddiffyn cleifion, staff ac ymwelwyr rhag COVID-19. Gwnaethom nodi nad oedd gan y practis deganau na chylchgronau ar gael yn y man aros, yn unol â chanllawiau COVID-19.

Roedd gan y practis bolisi parhad busnes cyfredol ar waith a oedd wedi cael ei lofnodi i nodi ei fod wedi cael ei weld gan yr holl staff. Fodd bynnag, nid oedd rhifau cyswllt brys ar gyfer y cwmnïau cyfleustodau a chyflenwi a ddefnyddir gan y practis ar gael ar unwaith i'r staff a, phe byddai tarfiad sylweddol ar y gwasanaeth, gallai hyn achosi oedi diangen ac aflonyddwch pellach i'r cleifion.

Gwelsom dystiolaeth o hysbysiadau gweithredu tân wedi'u gosod yn strategol ledled y practis, ac roedd arwyddion priodol ar gyfer allanfeydd tân. Roedd nifer priodol o ddiffoddwyr tân ar gael, ac roedd y rhain wedi cael eu gwasanaethu'n ddiweddar gan gwmni cymeradwy. Roedd contract ar waith i sicrhau gwasanaethu a chynnal a chadw offer tân yn y practis yn y dyfodol.

Gwelsom nad oedd gan y practis asesiad risg tân cyfredol ar waith ac ni welsom dystiolaeth o unrhyw asesiadau risg tân blaenorol. Nid oedd gan y practis swyddog tân ac nid oedd y staff wedi dilyn hyfforddiant diogelwch tân. Nid oedd ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd ychwaith. Roedd hyn yn golygu nad oedd y peryglon sy'n gysylltiedig â'r risg o dân o fewn y practis wedi'u nodi ac ni chymerwyd y camau angenrheidiol i liniaru'r risgiau hyn. Pe bai tân yn digwydd yn y practis, gallai diffyg hyfforddiant ac arweiniad priodol i ymateb yn ddiogel olygu bod y cleifion, y staff ac ymwelwyr yn cael eu rhoi mewn mwy o berygl o niwed.

Gwelsom fod gan y practis becyn brys meddygol llawn, gan gynnwys diffibriliwr allanol awtomatig (AED).⁸ Roedd gan y practis hefyd bolisi dadebru cyfredol a oedd yn dilyn canllawiau diweddaraf Cyngor Dadebru'r DU.⁹ Roedd glwcagon brys¹⁰ yn cael ei gadw mewn oergell yng nghegin y practis yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru. Fodd bynnag, roedd rhannau o'r pecyn brys yn cael eu cadw mewn gwahanol leoliadau drwyddo draw'r practis, gydag ocsigen brys yn cael ei gadw yng nghegin y staff, cyffuriau brys yn cael eu cadw o fewn cwpwrdd storio, a'r cyfarpar i drin pwl o asthma yn cael ei gadw ar wahân i'r salbutamol brys.¹¹ Gallai hyn olygu, pe bai argyfwng meddygol yn digwydd, y gallai fod oedi diangen wrth gasglu'r offer brys sydd eu hangen. Codwyd y mater hwn ar unwaith gyda'r rheolwyr cofrestredig, a chafodd ei ddatrys yn ystod yr arolygiad.

Roeddem yn falch o weld bod yr holl staff wedi dilyn hyfforddiant Cymorth Bywyd Sylfaenol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a bod gwiriadau wythnosol o'r cyffuriau ac offer brys wedi'u dogfennu.

⁸ Defnyddir AED, neu ddiffibriliwr allanol awtomatig, i helpu'r rhai sy'n cael ataliad y galon yn sydyn. Mae'n ddyfais feddygol hawdd ei defnyddio sy'n gallu dadansoddi rhythm y galon ac, os oes angen, darparu sioc drydanol, neu ddiffibriliad, i helpu'r galon i ailsefydlu rhythm effeithiol.

⁹ <https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-care-equipment-and-drug-lists/>

¹⁰ Mae "glwcagon" yn hormon sy'n ymwneud â rheoli siwgr gwaed. Fe'i defnyddir mewn argyfwng meddygol i drin hypoglycaemia (siwgr gwaed isel), sydd yn gyffredin mewn cleifion diabetig.

¹¹ Mae "salbutamol" yn feddyginiaeth a ddefnyddir i leddfu symptomau asthma a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD) fel peswch, gwichian, a diffyg anadl.

Roedd gan y practis un swyddog cymorth cyntaf penodedig a oedd hefyd yn un o'r rheolwyr cofrestredig. Gan fod y sawl hwn yn gweithio'n rhan amser yn y practis, roedd hyn yn golygu nad oedd gan y practis swyddog cymorth cyntaf dynodedig ar gyfer rhai o oriau gweithredu'r practis deintyddol. Nodwyd hyn gennym ar unwaith gyda'r ddau reolwr cofrestredig yn ystod yr arolygiad. Er mwyn datrys y mater hwn, cawsom sicrwydd o weld bod ail swyddog cymorth cyntaf wedi cael ei benodi a'i fod wedi dilyn cwrs cymorth cyntaf cymeradwy ar-lein yn ystod yr arolygiad. Gwelsom fod gan y practis becyn cymorth cyntaf llawn a oedd yn gyfredol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig wneud y canlynol:

- Ychwanegu manylion cyswllt ar gyfer cwmnïau cyfleustodau a chyflenwadau i'r cynllun parhad busnes, gan gynnwys rhifau ffôn mewn argyfwng
- Cynnal asesiad risg tân llawn a sicrhau bod y camau gweithredu a nodwyd i liniaru risgiau a amlygwyd yn cael eu cymryd mewn modd amserol a phrydlon

Sicrhau bod yr holl staff yn dilyn hyfforddiant ymwybyddiaeth a diogelwch tân a bod hwn yn cael ei ailadrodd yn flynyddol

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis bolisi atal a rheoli heintiau ar waith a'i fod wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau yn ddiweddar. Roedd hyn yn cynnwys meysydd fel hylendid dwylo a sterileiddio offerynnau deintyddol yn gywir. Gwelsom fod offerynnau wedi'u sterileiddio yn cael eu pecynnu yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05¹² a'u stampio â'r dyddiad yn unol â'r dyddiad sterileiddio a dyddiad dod i ben.

Roedd y ddau reolwr cofrestredig yn arweinwyr dihalogi dynodedig ar gyfer y practis ac roedd yr holl staff wedi cael hyfforddiant mewn gweithdrefnau dihalogi.

Gwelsom fod y practis wedi rhoi gweithdrefnau glanhau ychwanegol ar waith mewn ymateb i bandemig COVID-19. Gwelsom staff yn defnyddio'r cyfarpar

¹² Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM 01-05) yn gyfres o ganllawiau a ddefnyddir gan bractisau deintyddol i sicrhau bod mesurau sterileiddio, dihalogi, ac atal a rheoli heintiau yn foddhaol.

diogelu personol cywir a dywedwyd wrthym fod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant ar y dulliau cywir o wisgo a diosg¹³. Ategwyd hyn gan bosteri a arddangoswyd ar waliau'r ystafelloedd triniaeth. Roedd y practis wedi gosod systemau hidlo aer yn ei ystafelloedd triniaeth yn ddiweddar, a oedd yn golygu y gallai'r practis weithredu gyda'r amser segur lleiaf¹⁴ o 15 munud ar ôl gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol.¹⁵ Roedd purwyr aer hefyd yn cael eu defnyddio i amddiffyn staff a chleifion ymhellach rhag COVID-19.

Gwelsom dystiolaeth fod contract ar waith gyda chwmni rheoli gwastraff proffesiynol ar gyfer gwaredu a throsglwyddo gwastraff peryglus (clinigol) yn ddiogel. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel y tu allan i'r adeilad mewn sied dan glo yn yr ardd a rennir gan adeilad y practis deintyddol.

Nid oedd gan y practis deintyddol ystafell ddihalogi bwrpasol. Roedd hyn yn golygu bod yr offerynnau yn cael eu dihalogi a'u sterileiddio o fewn yr ardal driniaeth. Yn ogystal, gan mai dim ond un awtoclaf oedd gan y practis,¹⁶ roedd hyn yn golygu bod yr awtoclaf yn cael ei symud rhwng ystafelloedd triniaeth bob dydd yn ôl yr angen. Er i'r rheolwyr cofrestredig ein hysbysu eu bod yn trafod cynlluniau ar gyfer adeiladu ystafell ddihalogi bwrpasol yn y practis, nid oedd unrhyw gynlluniau ar waith ar gyfer hyn ar hyn o bryd oherwydd cynllun heriol y practis. Byddem yn argymhell bod y rheolwyr cofrestredig yn parhau i ystyried sut y gellir cynnwys ystafell ddihalogi bwrpasol yn y practis deintyddol er mwyn sicrhau cydymffurfedd llawn â'r gofynion a nodir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Yn ogystal, nodwyd, er ei fod yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd, fod tu allan yr awtoclaf wedi rhydu'n ddrwg. Byddai hyn yn gwneud glanhau effeithiol yn heriol. Yn unol â hynny, byddem yn argymhell bod y rheolwyr cofrestredig yn cael gwared ar yr awtoclaf ac yn prynu un newydd pan nad oes modd ei lanhau'n effeithiol mwyach.

Roedd dihalogi offerynnau yn cael ei wneud â llaw yn y practis. Gwelsom hyn yn cael ei wneud mewn modd a oedd yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd

¹³ Mae "gwisgo a diosg cyfarpar diogelu personol" yn cyfeirio at y weithdrefn gywir ar gyfer gwisgo a thynnu offer amddiffynnol personol fel ffedogau, menig, masgiau, ac offer amddiffyn y llygaid.

¹⁴ Mae amser segur yn cyfeirio at yr amser y dylai'r ystafell glinigol ar gyfer triniaeth ddeintyddol aros yn wag a heb ei defnyddio yn dilyn gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol.

¹⁵ Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol yn weithdrefn feddygol neu ofal iechyd y mae asiantaeth iechyd y cyhoedd fel Sefydliad Iechyd y Byd neu Ganolfannau Rheoli ac Atal Clefydau'r Unol Daleithiau wedi'i dynodi fel un sy'n creu risg uwch o drosglwyddo clefyd heintus a drosglwyddir drwy aerosol, fel COVID-19.

¹⁶ Dyfais a ddyluniwyd ac a ddefnyddir i sterileiddio offerynnau a chyfarpar deintyddol yw awtoclaf.

Cymru 01-05. Roedd y practis wedi dewis gwella hyn yn ddiweddar gyda baths glanhau uwchsonig.¹⁷ Roedd llyfr cofnodi ar gyfer gwiriadau dyddiol ac wythnosol wedi'i sefydlu i gofnodi'r rhain ac i sicrhau cydymffurfedd â chanllawiau atal a rheoli heintiau.

Gwelsom dystiolaeth bod staff yn cynnal gwiriadau dechrau a diwedd dydd ar yr awtoclaf cyn ei ddefnyddio. Roedd allbrintiau oddi wrth yr awtoclaf yn dangos cychoedd sterileiddio effeithiol a gwelsom fod yr awtoclaf wedi cael ei wasanaethu'n ddiweddar.

Yn ystod arolygiad o'r ystafelloedd triniaeth, gwnaethom nodi nad oedd biniau offer miniog wedi'u storio'n briodol, a bod un yn cael ei storio ar lawr yr ystafell driniaeth ac un arall mewn man a allai achosi i'r bin offer miniog ddisgyn. Gallai hyn roi staff a chleifion mewn perygl o anaf offer miniog a haint posibl. Gwnaethom argymhell i'r rheolwyr cofrestredig y dylid gosod biniau offer miniog mewn man diogel sy'n lleihau'r risg o anafiadau gan offer miniog i'r cleifion ac i'r staff.

Gwelsom nad oedd yr amgylchedd clinigol bob amser yn galluogi rheoli heintiau'n effeithiol. Mewn un ystafell driniaeth roedd gwyntyll ddesg rydd a fyddai'n anodd ei glanhau'n effeithiol yn dilyn gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol. Roedd gan ystafell driniaeth arall ddryswch o wifrau wedi'u cysylltu â chebl estynedig wedi'i leoli wrth ymyl yr awtoclaf. Hefyd, yn yr un lle roedd radio, a oedd yn ychwanegu ymhellach at anhawster glanhau'r ardal hon. Byddem yn argymhell bod y practis yn ystyried y ffordd orau o leoli eitemau yn yr ardaloedd triniaeth ddeintyddol er mwyn ei gwneud yn bosibl glanhau pob man yn effeithlon yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Nid oedd y practis ychwaith yn cadw cofnod o'r archwiliadau dyddiol a gynhelir yn y ddeintyddfa. Mae'r gwiriadau hyn yn cynnwys glanhau'r amgylchedd, gweithdrefnau atal legionella, a sefydlu'r ddeintyddfa. Er i ni arsylwi'r gwiriadau hyn yn cael eu cynnal, byddem yn argymhell bod cofnod yn cael ei gadw i sicrhau bod cydymffurfedd yn cael ei gynnal ac i atgoffa'r staff.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom gwpwrdd storio, a ddefnyddir i storio eitemau clinigol fel menig, masgiau, rholiau gwlan cotwm a rhwyllenni sgwâr, gyda chryn dipyn o lwch a gwe pry cop ynddo. Roedd y cwpwrdd hefyd yn cynnwys switsh drydanol wedi'i diraddio'n wael yn ôl pob golwg. Gallai hyn fod yn risg haint i gleifion gan fod yr eitemau hyn yn cael eu defnyddio'n uniongyrchol i roi gofal i

¹⁷ Mae bath uwchsonig yn ddyfais sy'n defnyddio tonnau sain amledd uchel sy'n cael eu trosglwyddo trwy hylif i lanhau drwy sgwrio arwyneb rhannau o'r offerynnau deintyddol o dan yr hylif.

gleifion. Codwyd y mater hwn ar unwaith gyda'r rheolwyr cofrestredig a rheolwr y practis, a symudwyd eitemau clinigol ar unwaith i leoliad mwy addas yn y practis deintyddol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod biniau offer miniog yn cael eu lleoli mewn modd saff a diogel sy'n cyfyngu ar y risg o anafiadau gan offer miniog i'r staff a'r cleifion
- Bod offer diangen yn cael eu tynnu o'r ddeintyddfa
- Nad yw gwifrau trydanol yn creu perygl nac yn rhwystro glanhau'r ddeintyddfa'n ddigonol
- Bod cofnod dyddiol o'r gwiriadau a wneir yn y practis deintyddol sy'n ymwneud â glanhau a rheoli heintiau yn cael ei gadw
- Bod cypyrddau a ddefnyddir i storio eitemau clinigol yn cael eu glanhau'n rheolaidd a'u cadw'n rhydd o lwch a phryfed, a bod y switsh yn y cwpwrdd storio yn cael ei newid
- Bod yr awtoclaf yn cael ei newid os daw gwaith glanhau'n aneffeithiol

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod gan y practis bolisi rheoli meddyginiaethau ar waith ynghyd â pholisi ar storio a gwaredu cyffuriau a reolir yn ddiogel.

Gwelsom fod padiau presgripsiwn yn cael eu cadw dan glo pan nad oeddent yn cael eu defnyddio a bod meddyginiaethau a ragnodwyd i gleifion wedi'u dogfennu yng nghofnodion deintyddol y cleifion. Byddai cyngor a gwybodaeth am feddyginiaethau ar bresgripsiwn yn cael eu cynnig ar lafar i gleifion. Dim ond deintyddion a gweithwyr deintyddol proffesiynol oedd wedi'u hyfforddi a'u hawdurdodi'n ddigonol i wneud hynny oedd yn darparu presgripsiynau.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r angen i hysbysu'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) am unrhyw adweithiau niweidiol gan gleifion i feddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol trwy'r Cynllun

Cerdyn Melyn.¹⁸ Mae hyn yn galluogi'r MHRA i sicrhau bod y cynhyrchion gofal iechyd yn ddiogel i gleifion a'r rhai sy'n eu defnyddio.

Er bod cyffuriau a oedd wedi dod i ben yn cael eu gwaredu drwy fferyllfa leol, nid oedd gan y practis gofnod o'r fferyllfa o dderbyn y meddyginiaethau a oedd wedi dod i ben. Felly, byddem yn cynghori'r practis i sicrhau ei fod yn cael derbynneb wedi'i llofnodi gan y fferyllfa ar gyfer ei gofnodion.

Nid oedd y practis yn cadw cofnod o feddyginiaeth a ragnodwyd y tu allan i gofnodion deintyddol y cleifion ar hyn o bryd. Er mwyn cynorthwyo gyda chanllawiau rhagnodi gwrthficrobaidd ac i fonitro rhagnodi, byddem yn argymhell bod y practis yn cadw cofnod i gofnodi'r presgripsiynau a gynigir i gleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig wneud y canlynol:

- Cael tystiolaeth gan y fferyllfa sy'n eu derbyn bod y cyffuriau a meddyginiaethau brys sydd wedi dod i ben wedi cael eu derbyn
- Cadw cofnod ysgrifenedig o'r presgripsiynau a roddwyd

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd gan y practis bolisi diogelu cyfredol ar waith ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed ac roedd yn cynnwys gweithdrefnau i'r staff eu dilyn pe byddai unrhyw bryderon ynghylch diogelu. Roedd y polisi'n cynnwys manylion cyswllt ar gyfer y staff i allu adrodd yn briodol ar unrhyw bryderon i'r asiantaethau diogelu lleol perthnasol.

Roedd y ddau reolwr cofrestredig yn arweinwyr diogelu ar gyfer y practis deintyddol ac roedd y ddau yn goruchwyllo materion diogelu. Roedd y ddau reolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant diogelu hyd at Lefel 3 a gwelsom dystiolaeth bod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu o fewn y tair blynedd diwethaf.

Cyfeiriwyd at ddolen i Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008, sy'n nodi'r canllawiau cenedlaethol ar gyfer diogelu plant a hybu eu lles ledled Cymru, ym mholisi diogelu'r practis.

¹⁸ [Cerdyn Melyn | Gwneud meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol yn fwy diogel \(mhra.gov.uk\)](https://www.mhra.gov.uk)

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Ar ôl archwilio'r cyfleusterau clinigol yn y practis deintyddol, gwelsom offer modern wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, gydag un ystafell driniaeth wedi'i hadnewyddu'n ddiweddar.

Gwnaethom archwilio'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod offer radiograffig (peilydr-X) yn cael eu defnyddio'n ddiogel, a chanfuom fod y practis ar y cyfan yn bodloni'r canllawiau a nodir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol¹⁹ a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017.²⁰

Gwelsom fod y rheolau lleol²¹ yn ymwneud â defnyddio'r offer radiograffeg ar gael wrth ymyl y peiriant peilydr-X, yn ogystal â dosimetr²² i fonitro lefelau ymbelydredd. Gwelsom fod y ddau beiriant peilydr-X wedi'u cofrestru'n gywir gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Fodd bynnag, nid oedd rhywfaint o waith papur yn ymwneud â defnyddio offer peilydr-X yn ddiogel yn y practis deintyddol yn drefnus ac nid oedd gan y practis ffolder amddiffyn rhag ymbelydredd bwrpasol. Roedd hyn yn golygu nad oedd rhai dogfennau pwysig yn berthnasol i ddefnydd diogel o'r peiriant ar gael ar unwaith. Yn benodol, nid oedd y dogfennau a oedd yn ymwneud â chynllun y ddeintyddfa a'r offer radiograffeg a ddefnyddir yn gyfredol. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y practis wedi derbyn cadarnhad o archwiliadau critigol boddhaol²³ o'r cyfarpar peilydr-X a ddefnyddir yn y practis, wedi'u cyflawni gan gwmni awdurdodedig.

Yn ogystal, canfuom nad oedd y llyfr log yn ymwneud â chysylltiadau peilydr-X cleifion yn ymwneud â pheiriant peilydr-X penodol. Roedd hyn yn ei gwneud yn heriol gwybod pa beiriant a ddefnyddiwyd ar gyfer cysylltiad claf. Roedd hyn yn

¹⁹ Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yw'r corff sy'n gyfrifol am gofrestru a rheoleiddio deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol ac am sicrhau bod safonau proffesiynol yn cael eu cynnal.

²⁰ <https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2017/1322/contents/made>

²¹ Mae rheolau lleol yn nodi'n ysgrifenedig y camau sylfaenol sydd eu hangen i ddangos cydymffurfedd â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 ac i sicrhau bod cysylltiadau ag ymbelydredd Ïoneiddio yn cael eu cadw mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol (egwyddor ALARP).

²² Dyfais a ddefnyddir i fesur dogn ymbelydredd Ïoneiddio wedi'i amsugno yw dosimetr.

²³ Mae archwiliad critigol yn dangos bod y nodweddion diogelwch a'r dyfeisiau rhybuddio yn gweithredu'n gywir, bod digon o amddiffyniad i bobl rhag dod i gysylltiad ag ymbelydredd Ïoneiddio, a bod yr offer yn ddiogel i'w defnyddio o dan amgylchiadau arferol.

golygu, pe byddai peiriant yn datblygu nam neu pe byddai angen ei ailraddnodi, efallai na fyddai yn cael ei sylwi am beth amser a/neu efallai na fyddai'r cleifion hynny a gafodd gysylltiad ganddo yn cael eu hysbysu. Yn unol â hynny, byddem yn argymhell bod y practis deintyddol yn cynnwys log ar wahân ar gyfer pob peiriant pelydr-X yn y practis.

Er ei bod yn gadarnhaol nodi bod y rhan fwyaf o'r staff wedi dilyn hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus ar ddefnyddio ymbelydredd ïoneiddio o fewn y pum mlynedd diwethaf, nid oedd cofnodion hyfforddiant ym maes ymbelydredd ïoneiddio ar gael i'w gweld ar y diwrnod ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio yn y practis deintyddol.

Yn ogystal, ni ddarparodd y practis unrhyw wybodaeth weledol i gleifion ynghylch risgiau a manteision dod i gysylltiad â phelydr-X i'r unigolyn. Gallai hyn olygu nad oedd cleifion yn cael eu hysbysu'n llawn ac nad oeddent yn cael yr wybodaeth lawn cyn cael cysylltiad â phelydr-X. Felly, dylid arddangos poster neu fath arall o wybodaeth weledol yn yr ystafell aros er mwyn hysbysu cleifion yn well am y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â phelydrau-X.

Nid oedd y practis yn defnyddio radiograffeg ddigidol ac, yn lle hynny, roedd radiograffau'n cael eu prosesu gan ddefnyddio prosesydd awtomatig. Roedd cemegau o fewn y prosesydd yn cael eu newid yn rheolaidd ac roedd dyddiadau newid y cemegau yn cael eu cofnodi. Roedd radiograffau wedi'u gosod yn gywir ac wedi'u labelu â manylion cywir y cleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig wneud y canlynol:

- Datblygu ffeil radioleg i sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn ymwneud ag offer radiograffig yn y practis yn hawdd i bob aelod o staff ddod o hyd iddi
- Sicrhau bod gan bob peiriant pelydr-X gofnod pwrpasol ar gyfer y cysylltiadau a wneir
- Darparu gwybodaeth weledol a/neu ysgrifenedig i'r cleifion er mwyn rhoi gwybod iddynt am fanteision a risgiau pelydrau-X
- Rhoi tystiolaeth i AGIC o hyfforddiant boddhaol mewn rheoliadau ymbelydredd ïoneiddio ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio yn y practis deintyddol

- Rhoi tystiolaeth i AGIC o archwiliadau critigol boddhaol o'r offer radiograffig a ddefnyddir yn y practis deintyddol

Gofal effeithiol

Gofal diogel ac sy'n effeithiol yn glinigol

Gwelsom fod y practis wedi cynnal rhai archwiliadau er mwyn sicrhau ansawdd y gofal y mae'n ei ddarparu i'r cleifion. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliad o ansawdd radiograffau ac archwiliad atal a rheoli heintiau a gwblhawyd yn ddiweddar.

Fodd bynnag, roedd gweithgarwch archwilio yn y practis yn gyfyngedig ac roedd angen gwelliant yn gyffredinol. Byddem yn argymhell bod y practis yn cynnal archwiliadau ym meysydd rhoi'r gorau i ysmegu, cadw cofnodion a rhagnodi gwrthficrobaidd er mwyn parhau i wella'r gofal a ddarperir ar gyfer y cleifion.

Nid oedd y practis wedi dilyn *Matrics Aeddfedrwydd Deintyddiaeth Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)*²⁴ neu *Adnodd Hunanwerthuso Optimeiddio Sgiliau (SOSET)*. Cynlluniwyd y rhain i alluogi'r tîm deintyddol i ganolbwyntio ar ymarfer deintyddol a gwella'r tîm. Er mwyn sicrhau bod y practis yn gweithio'n effeithlon ac yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i gleifion, byddem yn argymhell bod y practis yn cael mynediad at y ddau fel rhan o gylch parhaus o werthuso a gwella.

Er mwyn symleiddio a sicrhau cylch archwilio a gwella cynaliadwy, mae angen i'r practis weithredu polisi sy'n cwmpasu gweithgareddau archwilio ac archwilio clinigol.

²⁴ Mae *Matrics Aeddfedrwydd Deintyddiaeth Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)* yn offeryn a ddefnyddir yn ystod sesiwn wedi'i hwyluso gydag Addysgwr Gwella Ansawdd ac mae'n helpu'r tîm deintyddol i ystyried amrywiaeth o feysydd i wella arferion gorau ynddynt a sicrhau bod gofynion deddfwriaethol yn cael eu bodloni.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig wneud y canlynol:

- Ymgymryd ag offer Matrics Aeddfedrwydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ac Adnodd Hunanwerthuso Optimeiddio Sgiliau (SOSET) sydd ar gael drwy AaGIC
- Cynnal gweithgarwch archwilio pellach, gan gynnwys cadw cofnodion deintyddol, rhagnodi gwrthficrobaidd a rhoi'r gorau i ysmegu
- Gweithredu polisi archwilio a gwella

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Nid oedd y practis yn defnyddio cofnodion cleifion electronig ac nid oedd yr wybodaeth am gleifion yn cael ei chasglu'n electronig. Fodd bynnag, roedd gan y practis bolisi rheoli cofnodion ac ansawdd data cynhwysfawr a oedd yn bodloni'r gofynion o ran storio data'n ddiogel a gofynion diogelu data'n cyffredinol.

Roedd y ddau reolwr cofrestredig yn rheolyddion data ar gyfer y practis ac yn swyddogion diogelu data. Roedd y ddau hefyd yn arweinwyr diogelwch data ac yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl staff yn deall eu cyfrifoldebau o dan y rheoliadau.

Roedd cofnodion deintyddol cleifion yn cael eu cadw mewn ffeiliau copi caled ac roedd y rhain yn cael eu storio mewn cypyrddau ffeilio metel dan glo y tu ôl i ddesg y dderbynfa. Dywedwyd wrthym fod cofnodion deintyddol cleifion yn cael eu cadw am o leiaf wyth mlynedd o'r dyddiad y gwelwyd y claf ddiwethaf yn y practis.

Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad canfuom fod yr adeilad a oedd yn cynnwys y practis deintyddol yn cael ei rannu â fflat â thenant ar lawr cyntaf yr eiddo. Roedd angen i ddeiliad yr eiddo i fyny'r grisiau gael mynediad i'r practis deintyddol er mwyn cael mynediad i'w lety. Oherwydd cynllun anarferol yr adeilad, golygai hyn y gallai tenantiaid y fflat i fyny'r grisiau gael mynediad i'r practis deintyddol cyfan unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos. O ganlyniad, gallai fod mynediad heb awdurdod i ffeiliau staff, llyfrau apwyntiadau, cofnodion deintyddol cleifion a gwybodaeth gyfrinachol arall. Er mwyn sicrhau nad yw hyn yn digwydd, rhaid i'r rheolwyr cofrestredig roi trefniadau ar waith i ddiogelu gwybodaeth gyfrinachol am staff a chleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau bod y trefniadau presennol i ddiogelu gwybodaeth gyfrinachol a sensitif a gedwir yn y practis yn atal mynediad heb awdurdod.

Cadw cofnodion

Nid yw'r practis deintyddol yn defnyddio meddalwedd cofnodion deintyddol ac mae'n dibynnu ar gofnodion deintyddol a siartiau wedi'i hysgrifennu â llaw. Fel rhan o'n harolygiad, fe wnaethom adolygu deg set o gofnodion deintyddol cleifion. Roedd y rhain yn cynnwys ystod o gofnodion cleifion ac yn cynnwys plant, ysmygwyr, a'r rhai yr oedd angen eu hatgyfeirio, yn ogystal â chleifion sy'n cael triniaethau adferol mwy cymhleth. Roedd y cleifion yn gymysgedd o gleifion GIG a phreifat.

Ar y cyfan, canfuom fod angen gwella safonau cadw cofnodion. Yn gyson, canfuom na chafwyd cydsyniad gwybodus gan y claf cyn y driniaeth. Canfuom hefyd nad oedd asesiadau risg yn ymwneud â phydredd dannedd, iechyd periodontol,²⁵ traul dannedd a chanser y geg yn cael eu cofnodi gan bob clinigydd.

Ar gyfer rhai cleifion, nid oedd siartiau deintyddol wedi'u diweddarau ers peth amser ac roedd siartiau boced chwe phwynt²⁶ (dangosydd pwysig o iechyd y deintgig) heb eu gwneud pan nodwyd hynny. Yn ogystal, roedd diffyg manylion am y driniaeth a ddarparwyd mewn rhai cofnodion deintyddol ac, mewn eraill, nid oedd cyfnod galw'n ôl wedi'i nodi.

Roedd cyfiawnhad radiograffig²⁷ wedi'i gofnodi'n gyson ar draws y sampl o gofnodion deintyddol a werthuswyd gennym. Fodd bynnag, canfuwyd bod

²⁵ Mae iechyd periodontol yn ymwneud ag iechyd y deintgig a'r meinweoedd meddal cynhaliol o'i gwmpas.

²⁶ Mae siart boced chwe phwynt yn siart sy'n nodi lefel y gofod periodontol neu "bocedu" mewn chwe lle wedi eu diffinio o amgylch pob dant. Gwneir mesuriadau gan ddefnyddio chwiliedydd periodontol sy'n galluogi gweithwyr deintyddol proffesiynol i nodi mewn milimetrau bob bwll rhwng y dant a'r deintgig.

²⁷ Mae cyfiawnhad radiograffig yn cyfeirio at yr arfer o werthuso archwiliadau radiolegol y gofynnwyd amdanynt i asesu teilyngdod a phriodoldeb clinigol yn seiliedig ar nodiadau clinigol a gwybodaeth am y claf.

graddio'r radiograffau a gymerwyd yn anghyson rhwng y gweithwyr deintyddol proffesiynol yn y practis.

Er mwyn gwella safon cofnodion deintyddol, byddem yn argymhell bod y practis yn cynnal archwiliad cadw cofnodion cynhwysfawr. Bydd hyn yn caniatáu iddo nodi unrhyw feysydd o gadw cofnodion y mae angen eu gwella neu hyfforddiant ychwanegol arnynt. Rhaid ailadrodd hyn o leiaf unwaith y flwyddyn, neu'n gynt os yw canlyniadau'r archwiliad yn amlygu meysydd sydd angen eu gwella.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau bod archwiliad cadw cofnodion yn cael ei gwblhau'n flynyddol, neu'n gynt os bydd canlyniadau'r archwiliad yn gofyn am hyn, a bod hyfforddiant pellach yn cael ei gynnal i sicrhau gwelliant gofynnol.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Ar y cyfan, canfuom fod angen gwella trefniadau llywodraethu'r practis. Nid oedd dogfennau pwysig, gan gynnwys gwybodaeth bersonol y staff yn ymwneud â'u cyflogaeth yn y practis deintyddol, yn cael eu cadw mewn modd diogel ac nid oedd yn hawdd dod o hyd iddynt, ac nid oeddent yn cael eu cadw mewn system ffeilio gydlynol ac effeithiol.

Nid oedd dogfennau allweddol yn ymwneud â gwiriadau cyn cyflogi ar gael ar gyfer rhai aelodau o'r staff.

Er bod y staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd mewn tîm clos, byddai'r practis yn elwa ar gyfarfodydd staff rheolaidd ac arfarniadau blynyddol ar gyfer y staff er mwyn caniatáu datblygiad unigol ac o fewn y practis.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Practis Deintyddol Woodlands yn eiddo i ddau gwmni unigol sy'n rhedeg y practis mewn partneriaeth rhannu costau. O ganlyniad, mae'r ddau berchennog busnes hefyd yn rheolwyr cofrestredig sy'n rhannu'r gwaith o redeg y practis deintyddol o ddydd i ddydd rhyngddynt. Cefnogir y rheolwyr cofrestredig gan dîm o nyrsgymwysedig cymwysedig a dan hyfforddiant, a oedd hefyd yn cyflawni rôl y derbynnydd pan oedd angen. Roedd gan y practis reolwr practis a oedd hefyd yn nyrsgymwysedig gofrestrredig gymwysedig.

Roedd yr holl staff wedi bod yn y practis am gyfnod sylweddol ac, yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Pan holwyd y staff, roeddent yn ymwybodol o bwy i adrodd iddynt pe byddent yn teimlo bod angen codi pryder neu gŵyn yn y practis.

Gwelsom fod gan y practis ffolder a oedd yn cynnwys ystod eang o bolisiâu a gweithdrefnau i sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Cawsom daflen wybodaeth

gynhwysfawr i gleifion a oedd ar gael i'r cleifion ar gais. Nid oedd gan y practis ddatganiad o ddiben ar gael ar gyfer y cleifion a oedd yn cydymffurfio ar ddiwrnod yr arolygiad. Er y darparwyd copi yn ystod yr arolygiad, nid oedd hwn yn gwbl berthnasol i Gymru, gan gyfeirio at nodau ac amcanion a oedd yn ymwneud â gofal iechyd a phractisau deintyddol yn Lloegr ac nid Cymru.

Roeddem yn falch o nodi bod y practis wedi arddangos ei dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus mewn lle amlwg yn y man aros.

Roedd y rheolwyr cofrestredig yn ymwybodol o'r rhan fwyaf o'u cyfrifoldebau o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 o ran digwyddiadau yr oedd angen adrodd arnynt i AGIC mewn modd amserol.

Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, canfuom fod angen gwelliant sylweddol ar lywodraethu yn gyffredinol. Nid oedd gwaith papur a dogfennau'n ymwneud â rhedeg y practis yn cael eu ffeilio mewn unrhyw ffordd drefnus ac roedd llawer o ddogfennau ar goll, wedi'u rhoi yn y lle anghywir, neu wedi'u camffeilio â dogfennau eraill nad oeddent yn gysylltiedig. Wrth fynd i mewn i'r man aros, nodwyd bod pentwr mawr o waith papur wedi'i bentyrru mewn modd blêr. Hefyd, gosodwyd argraffydd cyfrifiadur ar fwrdd mewn man lle gofynnwyd i gleifion eistedd ac aros. O'r herwydd, rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau bod gwaith papur yn cael ei storio mewn modd diogel ac effeithiol a bod argraffydd y cyfrifiadur yn cael ei gadw mewn lle na gall y cleifion ac ymwelwyr â'r practis ei weld.

Nid oedd gan y practis ffeil neu ffeiliau pwrpasol ar gyfer dogfennau staff, gan gynnwys gwybodaeth sensitif a chyfrinachol megis statws imiwneiddio a thystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Yn lle hynny, roedd y dogfennau hyn wedi'u lleoli rhwng nifer o wahanol ffeiliau nad oeddent yn gysylltiedig. Yn ystod yr arolygiad, canfuom nifer o ddogfennau a oedd yn ymwneud â staff nad oeddent yn gweithio yn y practis mwyach, ac a oedd yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol a sensitif, wedi'u storio ymhlith dogfennau eraill.

Nid oedd dogfennau'n ymwneud ag offer radiograffig yn y practis wedi'u ffeilio mewn ffolder amddiffyniad radiograffig benodol ac felly roedd yn anodd dod o hyd iddynt pan ofynnwyd amdanynt.

Er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn esmwyth ar bob adeg ac i atal oedi diangen wrth geisio dod o hyd i ddogfennau yn y gwaith o redeg y practis o ddydd i ddydd, rhaid i'r practis ddatblygu system ffeilio effeithiol. Rhaid i hon alluogi'r practis i redeg mewn modd effeithlon sy'n cydymffurfio.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig wneud y canlynol:

- Sicrhau bod ganddynt system lywodraethu effeithiol ac effeithlon ar waith. Mae hyn er mwyn sicrhau bod dogfennau sy'n ymwneud â rhedeg y practis deintyddol, gan gynnwys ffolderi personol y staff, yn cael eu ffeilio mewn modd trefnus ac effeithlon sy'n diogelu natur gyfrinachol a sensitif y wybodaeth
- Cadw gwaith papur mewn modd diogel a saff a pheidio â'i bentyrru'n ansicr yn y man aros
- Symud argraffydd y cyfrifiadur i ardal sy'n sicrhau preifatrwydd a chyfrinachedd y dogfennau y gellir eu hargraffu

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Dangosodd adolygiad o ddogfennaeth y staff fod gan yr holl staff dystysgrifau manwl a dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y gweithlu plant ac oedolion a oedd wedi cael eu cyhoeddi o fewn y pum mlynedd diwethaf. Gwelsom dystiolaeth bod yr holl aelodau o'r staff clinigol wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Dywedodd y rheolwyr cofrestredig wrthym fod y staff yn gyfrifol am ariannu eu cofrestriad gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae yswiriant indemniad dilys, sy'n ofynnol er mwyn cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn cael ei ddarparu gan y rheolwyr cofrestredig.

Cawsom sicrwydd o weld bod lefelau'r staff yn foddhaol a bod gan y practis staff wedi eu hyfforddi'n briodol ac â chymwysterau addas i sicrhau gofal diogel ac effeithiol i gleifion ar bob adeg. Roedd gan y practis bolisi chwythu'r chwiban ac roedd y staff yn deall sut i godi pryder pe bai angen.

Nid oedd y naill reolwr cofrestredig na'r llall wedi mynychu unrhyw hyfforddiant ffurfiol eto i'w cynorthwyo i reoli'r practis deintyddol preifat. Fodd bynnag, roedd y ddau yn gyfredol â datblygiad proffesiynol parhaus gofynnol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Canfuom fod hyfforddiant gorfodol staff yn gyfredol ar y cyfan. Fodd bynnag, nid oedd gan yr un aelod o staff unrhyw hyfforddiant ffurfiol ar ymwybyddiaeth a diogelwch tân. Gallai hyn effeithio ar ddiogelwch y cleifion a staff pe bai tân yn digwydd yn y practis deintyddol. Rydym yn argymhell bod yr holl staff yn cael

hyfforddiant ymwybyddiaeth a diogelwch tân i atal hyn, y bydd rhaid ei ddiweddarau'n flynyddol.

Gwnaethom wirio i sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio'n glinigol wedi darparu prawf eu bod wedi cael eu himiwneiddio ar gyfer hepatitis B a bod ganddynt ymateb imiwnyddol priodol. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu dilysu bod un aelod clinigol o'r staff wedi cael brechiad hepatitis B neu ymateb imiwnyddol priodol. Mae'n ofynnol i staff clinigol sy'n ymgymryd â gweithdrefnau a allai arwain at gysylltiad²⁸ allu dangos imiwneiddiad boddhaol ar gyfer hepatitis B er mwyn amddiffyn y cleifion ac atal croes-heintio. Gall methu â darparu tystiolaeth am hyn roi cleifion a staff mewn perygl o gael eu heintio â hepatitis B. Roedd rhai staff hefyd wedi cynnwys prawf o frechiad COVID-19 pan oedd modd.

Yn ystod yr arolygiad, dywedodd y rheolwyr cofrestredig wrthym fod nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant newydd ar fin dechrau gweithio yn y practis. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym ei bod yn anodd cael gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y gweithlu plant ac oedolion oherwydd cymhlethdodau na ellir eu hosgoi. Mae'n un o ofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 bod unrhyw un a gyflogir i weithio mewn practis deintyddol preifat yn cael ei sgrinio'n llawn cyn cael ei gyflogi, gan gynnwys gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y gweithlu plant ac oedolion. Gwnaethom hysbysu'r rheolwyr cofrestredig am hyn yn ystod yr arolygiad ac, o ganlyniad, bu oedi i ddyddiad dechrau cyflogaeth yr aelod newydd o staff er mwyn caniatáu iddo gael y gwiriadau hyn.

Gwelsom dystiolaeth fod bolisi recriwtio staff a rhestr wirio sefydlu gynhwysfawr yn cael eu defnyddio yn y practis ar gyfer aelodau newydd o staff.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd i staff y practis wedi dod i ben ar ddechrau pandemig COVID-19 ac nad oeddent wedi aildechrau. Nid oedd cofnodion ar gyfer y cyfarfodydd blaenorol. Er mwyn sicrhau cynnydd a gwelliant parhaus, byddem yn argymhell bod cyfarfodydd staff yn aildechrau'n fwy ffurfiol a rheolaidd a bod y cyfarfodydd hyn yn cael eu cofnodi.

Nid oedd y staff wedi cael arfarniad ers 2019. Mae arfarniadau staff blynyddol yn offeryn pwysig ar gyfer darganfod anghenion hyfforddi, sicrhau bod y staff yn hapus yn eu rolau, ac ar gyfer camu ymlaen yn eich gyrfa. Rhaid aildechrau arfarniadau blynyddol ar gyfer yr holl staff.

²⁸ Mae gweithdrefnau a allai arwain at gysylltiad yn weithdrefnau lle mae risg o anaf i'r gweithiwr gofal iechyd, gan arwain at feinweoedd agored y claf yn cael eu hamlygu i waed y gweithiwr gofal iechyd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig wneud y canlynol:

- Sicrhau bod gan yr holl staff wiriad manylach dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y gweithlu plant ac oedolion cyn dechrau cyflogaeth gyda'r practis deintyddol
- Sicrhau bod pob aelod o'r staff clinigol sy'n cymryd rhan mewn gweithdrefnau a allai arwain at gysylltiad yn gallu dangos ei fod wedi cael ei frechu ar gyfer hepatitis B a'i fod wedi cael ymateb imiwnyddol boddhaol
- Darparu arfarniadau blynyddol i'r holl staff
- Cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd sydd wedi'u cofnodi

Sicrhau bod hyfforddiant gorfodol (gan gynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth a diogelwch tân) yn gyfredol i bob aelod o'r staff ar bob adeg

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch y cleifion lle y gwnaethom roi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ein hysbysu o'r camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Pan ydym yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws manau eraill o fewn y sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau o bractisau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Diben hyn yw fel bod trefniadau'n gallu cael eu gwneud i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn ôl yr arfer, ac fel bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied â phosibl.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) ac, mewn achosion lle y darperir deintyddiaeth breifat, sut maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Pan fo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill fel [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir rhagor o wybodaeth am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatrwyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon a nodwyd ar unwaith	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd y practis yn arddangos safonau / cod moeseg y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.	Mae'n ofynnol gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i gleifion gael eu hysbysu am y safonau sy'n ofynnol gan y tîm deintyddol. (Safon 4.2 Gwybodaeth i gleifion; Rheoliad 19, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017)	Gwnaethom godi'r pryder hwn gyda'r rheolwyr cofrestredig yn ystod yr arolygiad a gofynnwyd i hyn gael ei ddatrys ar unwaith.	Roedd y rheolwr cofrestredig wedi arddangos copi o safonau / cod moeseg y Cyngor Deintyddol Cyffredinol erbyn diwedd yr arolygiad.
Gwelsom fod bin offer miniog agored wedi'i orlenwi a'i storio ar lawr yr ystafell driniaeth.	Roedd hyn yn golygu nad oedd staff a chleifion yn cael eu hamddiffyn rhag y risgiau sy'n gysylltiedig ag offer miniog, fel nodwyddau, sydd wedi cael eu halogi. (Safon 3.1 Gofal diogel ac sy'n	Amlygwyd y pryder hwn ar unwaith gyda'r rheolwyr cofrestredig a gwnaethom ofyn iddynt sicrhau bod y bin offer miniog yn cael ei gau'n barhaol a bod lleoliad newydd gael ei ddewis ar gyfer y bin newydd.	Roedd y bin offer miniog wedi'i gau'n barhaol, ac wedi ei newid, a'i storio mewn man oddi ar y llawr a oedd yn hygyrch ac yn ddiogel i'r staff erbyn diwedd yr arolygiad.

	<p>effeithiol yn glinigol; Rheoliad 13(5), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017)</p>		
<p>Dim ond un swyddog cymorth cyntaf rhan-amser oedd gan y practis.</p>	<p>Roedd hyn yn golygu nad oedd gan y practis swyddog cymorth cyntaf cymwysedig ar gael ar bob adeg pan oedd y practis yn gweithredu ac yn trin cleifion. (Safon 2.1 Rheoligrisg a hybu iechyd a diogelwch; Rheoliad 17(a), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017)</p>	<p>Amlygwyd hyn ar unwaith gyda'r ddau reolwr cofrestredig a gofynnwyd i hyn gael ei gywiro cyn gynted â phosibl.</p>	<p>Yn ystod yr arolygiad, roedd y ddau reolwr cofrestredig wedi dilyn cyrsiau cymorth cyntaf yn y gwaith (ar-lein).</p>
<p>Defnyddio gwyntyll ddesg mewn ardal glinigol sy'n cynnal gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol.</p>	<p>Nid yw gwyntyllau yn cael eu hargymell i'w defnyddio mewn ardaloedd clinigol sy'n cynnal gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 sy'n ymwneud ag atal a rheoli heintiau. (Safon 2.4 Atal a rheoli heintiau a dihalogi; Rheoliad 13(2), Rheoliadau</p>	<p>Amlygwyd hyn ar unwaith gyda'r rheolwyr cofrestredig. Gofynnwyd i hon gael ei symud o amgylchedd yr ystafelloedd triniaeth / yr amgylchedd clinigol ar unwaith.</p>	<p>Tynnwyd y wyntyll ar unwaith o'r ardal glinigol.</p>

	Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017)		
Canfuom fod cyffuriau ac offer brys wedi'u lledaenu ledled y practis.	Er mwyn trin argyfyngau meddygol yn brydlon, mae'r arferion gorau yn mynnu bod cyffuriau ac offer brys yn cael eu cadw mewn lleoliad pwrpasol. Gallai lleoli eitemau mewn lleoliadau lluosog ledled y practis achosi oedi diangen wrth ddarparu offer i drin unrhyw argyfwng meddygol sy'n digwydd yn y practis deintyddol. (Safon 3.1 Gofal diogel ac sy'n effeithiol yn glinigol; Rheoliad 31(3), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017)	Amlygwyd hyn i staff y practis a rheolwr cofrestredig y practis gan yr adolygydd cymheiriaid deintyddol.	Daethpwyd o hyd i leoliad addas a oedd o fewn cyrraedd hawdd i'r holl ardaloedd cleifion ar gyfer storio pob eitem o offer brys a meddyginiaethau cysylltiedig.

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Woodlands

Dyddiad yr arolygiad: 21 Mawrth 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diffyg cydymffurfio mewn perthynas â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Y camau sydd i'w cymryd	Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Woodlands

Dyddiad yr arolygiad: 21 Mawrth 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig ddarparu amrywiaeth o wybodaeth ysgrifenedig i gleifion er mwyn hybu iechyd y geg mewn modd sy'n cydfynd â chanllawiau cyfredol COVID-19.	1.1 Hyrwyddo, diogelu a gwella iechyd; Rheoliad 13(9), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae taflenni ar gael yn y dderbynfa i'r cleifion. Oherwydd cyfyngiadau COVID-19, maent ar gael ar gais. Bydd hysbysiad yn y dderbynfa yn nodi i ofyn i staff y dderbynfa os oes angen rhagor o daflenni iechyd y geg. Copi o'r hysbysiad yn y dderbynfa.	Edward Webster a Christopher Davies	Diwedd Mehefin 2022
Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth am daliadau a ffioedd am	4.2 Gwybodaeth i gleifion; Rheoliad 6(3), Rheoliadau Deintyddiaeth	Rhestr ffioedd ar gyfer y cleifion wedi ei rhoi ar wal ac ar gael yn hawdd. Gellir danfon llun o'r hysbysiad i AGIC.	Edward Webster a Christopher Davies	Diwedd Mehefin 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
driniaethau deintyddol ar gael yn hawdd i'r cleifion a/neu eu cynrychiolwyr.	Breifat (Cymru) 2017			
<p>Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y gwneir “cynnig rhagweithiol” i'r cleifion, eu cynrychiolwyr ac ymwelwyr • Y gofynnir yn rheolaidd i'r cleifion beth yw eu dewis iaith wrth ddefnyddio'r practis deintyddol • Bod gwybodaeth yn cael ei harddangos i annog y cleifion hynny sy'n dymuno cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg i wneud hynny • Bod gwybodaeth ar gael yn ddwyieithog i gleifion yn Gymraeg ac yn Saesneg 	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol; Rheoliad 13 (1) (a), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	<p>Mae “cynnig rhagweithiol” yn cael ei wneud i ymwelwyr trwy hysbysiad yn y dderbynfa. Datganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion i gael eu cyfieithu i'r Gymraeg.</p> <p>Gofynnwyd i gleifion yn rheolaidd beth yw eu dewis iaith.</p> <p>Llinell iaith ar gael.</p>	Edward Webster a Christopher Davies	<p>Diwedd Mehefin 2022</p> <p>Diwedd Mehefin 2022</p> <p>Yn ceisio cyngor parhaus gan nad oes unrhyw siaradwyr Cymraeg yn gweithio yn y practis</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau bod y datganiad o ddiben yn cydymffurfio â'r rheoliadau sy'n llywodraethu deintyddiaeth breifat yng Nghymru. Rhaid adolygu hwn yn flynyddol a'i ddarparu i AGIC.</p>	<p>Atodlen 1, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p>	<p>Gwelwyd crynodeb o'r datganiad o ddiben ar ddiwrnod yr arolygiad.</p> <p>Mae'r datganiad o ddiben llawn eisoes wedi'i lanlwytho i AGIC.</p>	<p>Edward Webster a Christopher Davies</p>	<p>Cwblhawyd</p>
<p>Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau bod anghenion unigol cleifion yn cael eu hystyried wrth ddefnyddio'r practis deintyddol a gwneud trefniadau addas i liniaru unrhyw anawsterau hygyrchedd.</p>	<p>6.2 Hawliau pobl; Rheoliad 13 (1) (a), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p>	<p>Mae'r practis yn gallu cael ei gyrraedd trwy'r ail fynedfa, sydd heb risiau.</p> <p>Trefnu bod taflen wybodaeth i gleifion ar gael mewn print bras.</p> <p>Gwneud fersiwn hawdd ei deall o'r daflen wybodaeth i gleifion.</p> <p>Sicrhau bod fersiwn Braille o'r daflen i gleifion ar gael.</p> <p>Gosod dolen glyw.</p> <p>Ystyried cynlluniau ar gyfer desg newydd i'r dderbynfa sydd yn is.</p>	<p>Edward Webster a Christopher Davies</p>	<p>Diwedd Medi 2022</p> <p>Hysbyswyd AGIC am unrhyw gynnydd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystyried rhoi system addas ar waith i gasglu cwynion ac adborth llafar/anffurfiol er mwyn nodi themâu a thueddiadau i sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i wella'r gwasanaeth • Gweithredu system addas i geisio adborth ffurfiol gan gleifion fel y gellir nodi gwelliannau i'r gwasanaeth a gweithredu arnynt yn ôl yr angen 	<p>6.3 Gwrando a dysgu o adborth; Rheoliad 16 (2) (c), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p>	<p>Defnyddio ffolder i gasglu cwynion ac adborth llafar/anffurfiol.</p> <p>I'w hadolygu o bryd i'w gilydd (yn chwarterol) i nodi themâu a thueddiadau a sicrhau y cymerir camau priodol i wella'r gwasanaeth.</p> <p>Copi o'r ffurflen a ddefnyddir i gasglu cwynion/adborth.</p>	<p>Edward Webster a Christopher Davies</p>	<p>Diwedd Mehefin 2022</p>
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
<p>Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ychwanegu manylion cyswllt ar gyfer cwmnïau cyfleustodau a chyflenwadau i'r 	<p>2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch; Rheoliad 22 (4), Rheoliadau</p>	<p>Llunio rhestr o rifau cyswllt brys ar gyfer cwmnïau cyfleustodau a chyflenwi er mwyn iddynt fod ar gael yn hawdd ar gyfer y staff.</p>	<p>Edward Webster a Christopher Davies</p>	<p>Diwedd Mehefin 2022</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>cynllun parhad busnes, gan gynnwys rhifau ffôn mewn argyfwng</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynnal asesiad risg tân llawn a sicrhau bod camau gweithredu a nodwyd i liniaru risgiau a amlygwyd yn cael eu cymryd mewn modd amserol a phrydlon Sicrhau bod yr holl staff yn dilyn hyfforddiant ymwybyddiaeth a diogelwch tân a bod hwn yn cael ei ailadrodd yn flynyddol 	<p>Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p>	<p>Hyfforddiant swyddog tân ac asesu risg.</p> <p>Cyflawni ymarferion tân yn rheolaidd a hyfforddiant diogelwch tân.</p> <p>Copi o restr o rifau a logiau hyfforddiant.</p>		<p>Cwblhawyd</p> <p>Yn barhaus</p>
<p>Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Bod biniau offer miniog yn cael eu lleoli mewn modd saff a diogel sy'n cyfyngu ar y risg o anafiadau gan offer miniog i'r staff a'r cleifion Bod offer diangen yn cael eu tynnu o'r ddeintyddfa 	<p>2.4 Atal a rheoli heintiau a dihalogi; Rheoliad 13 (5) a Rheoliad 22, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p>	<p>Ystyried ystafell dihalogi bwrpasol.</p> <p>Symudwyd y biniau offer miniog mewn modd diogel.</p> <p>Offer diangen wedi'u tynnu o'r ddeintyddfa.</p>	<p>Edward Webster a Christopher Davies</p>	<p>Parhaus / Diwedd Mehefin 2022 / Yn ôl yr angen (ynghylch newid yr awtoclaf)</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Nad yw gwifrau trydanol yn creu perygl nac yn rhwystro glanhau'r ddeintyddfa'n ddigonol Bod cofnod dyddiol o'r gwiriadau a wneir yn y practis deintyddol sy'n ymwneud â glanhau a rheoli heintiau yn cael ei gadw Bod cypyrddau a ddefnyddir i storio eitemau clinigol yn cael eu glanhau'n rheolaidd a'u cadw'n rhydd o lwch a phryfed Bod y switsh yn y cwpwrdd storio yn cael ei newid Bod yr awtoclaf yn cael ei newid os daw gwaith glanhau'n aneffeithiol 		<p>Cadw cofnod dyddiol o wiriadau a wneir o fewn y practis deintyddol mewn perthynas â glanhau a rheoli heintiau.</p> <p>Mae'r cypyrddau a ddefnyddir i storio eitemau clinigol yn cael eu glanhau'n rheolaidd. Mae'r switsh yn y cwpwrdd storio wedi'i newid.</p> <p>Newid yr awtoclaf os yw'n aneffeithiol.</p> <p>Hysbyswyd AGIC am unrhyw gynnydd.</p>		
Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig wneud y canlynol:	2.6 Rheoli meddyginiaethau; Rheoliad 13 (4), Rheoliadau	Cael tystiolaeth gan y fferyllfa sy'n eu derbyn o'r cyffuriau a'r feddyginiaeth sydd wedi dod i ben.	Edward Webster a Christopher Davies	Diwedd Mehefin / pan ddaw

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Cael tystiolaeth gan y fferyllfa sy'n eu derbyn bod y cyffuriau a meddyginiaethau brys sydd wedi dod i ben wedi cael eu gwaredu Cadw cofnod ysgrifenedig o'r presgripsiynau a roddwyd 	Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	<p>Cadw cofnod ysgrifenedig o'r presgripsiynau a roddwyd.</p> <p>Bydd cofnodion ar gael.</p>		cyffuriau i ben yn 2022
<p>Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Datblygu ffeil radioleg i sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn ymwneud ag offer radiograffig yn y practis yn hawdd i bob aelod o staff ddod o hyd iddi Sicrhau bod gan bob peiriant pelydr-X gofnod pwrpasol ar gyfer y cysylltiadau a wneir Darparu gwybodaeth weledol a/neu ysgrifenedig i'r cleifion er mwyn rhoi 	2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol; Rheoliad 13, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	<p>Mae ffeil radiograffeg ar gael ar-lein i sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn hawdd i'r holl aelodau o'r staff ddod o hyd iddi.</p> <p>Sicrhau bod gan bob peiriant pelydr-X gofnod pwrpasol ar gyfer cysylltiadau a wneir.</p> <p>Darparu gwybodaeth weledol a/neu ysgrifenedig i gleifion er mwyn rhoi gwybod iddynt am fanteision a risgiau pelydr-X ar boster.</p>	Edward Webster a Christopher Davies	<p>Diwedd Gorffennaf 2022</p> <p>Diwedd Mehefin 2022</p> <p>Diwedd Mehefin 2022</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>gwybod iddynt am fanteision a risgiau pelydrau-X</p> <ul style="list-style-type: none"> Rhoi tystiolaeth i AGIC o hyfforddiant boddhaol mewn rheoliadau ymbelydredd ïoneiddio ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio yn y practis deintyddol Rhoi tystiolaeth i AGIC o archwiliadau critigol boddhaol o'r offer radiograffig a ddefnyddir yn y practis deintyddol 		<p>Rhoi tystiolaeth i AGIC o hyfforddiant boddhaol mewn rheoliadau ymbelydredd ïoneiddio ar gyfer yr holl staff.</p> <p>Darparu tystiolaeth i AGIC o archwiliadau critigol o'r offer radiograffig.</p>		
<p>Dylai'r rheolwyr cofrestredig wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ymgymryd ag offer Matrics Aeddfedrwydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ac Adnodd Hunanwerthuso Optimeiddio Sgiliau (SOSET) sydd ar gael drwy AaGIC Cynnal gweithgarwch archwilio pellach, gan gynnwys cadw cofnodion deintyddol, 	<p>3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol; Rheoliad 16, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p>	<p>Ymgymryd ag offer Matrics Aeddfedrwydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ac Adnodd Hunanwerthuso Optimeiddio Sgiliau (SOSET).</p> <p>Cynnal gweithgarwch archwilio pellach, gan gynnwys cadw cofnodion deintyddol, rhagnodi gwrthficrobaidd a rhoi'r gorau i ysmegu.</p>	<p>Edward Webster a Christopher Davies</p>	<p>Diwedd Medi 2022 / cylchred chwarterol o archwiliadau</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>rhagnodi gwrthficrobaidd a rhoi'r gorau i ysmegu</p> <ul style="list-style-type: none"> Ystyried gweithredu polisi archwilio a gwella 		<p>Gweithredu polisi archwilio a gwella.</p> <p>I fod ar gael i'w harchwilio.</p>		
<p>Dylai'r rheolwyr cofrestredig sicrhau bod y trefniadau presennol i ddiogelu gwybodaeth gyfrinachol a sensitif a gedwir yn y practis yn ddigonol i atal mynediad heb awdurdod.</p>	<p>3.4 Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu; Rheoliad 20 (2), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p>	<p>Sicrhau bod y trefniadau presennol i ddiogelu gwybodaeth gyfrinachol a sensitif yn helpu yn y practis i atal mynediad heb awdurdod.</p> <p>Rhoi llyfrau apwyntiadau a ffeiliau'r staff o dan glo.</p> <p>I fod ar gael i'w harchwilio.</p>	<p>Edward Webster a Christopher Davies</p>	<p>Diwedd Mehefin 2022</p>
<p>Dylai'r rheolwyr cofrestredig sicrhau bod archwiliad cadw cofnodion yn cael ei gwblhau'n flynyddol, neu'n gynt os bydd canlyniadau'r archwiliad yn gofyn am hyn, a bod hyfforddiant pellach yn cael ei gynnal i sicrhau gwelliant gofynnol.</p>	<p>3.5 Cadw cofnodion; Rheoliad 8 (1) (n), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p>	<p>Sicrhau bod archwiliad cadw cofnodion wedi'i gwblhau.</p> <p>I fod ar gael i'w archwilio.</p>	<p>Edward Webster a Christopher Davies</p>	<p>Diwedd Gorffennaf 2022</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod ganddynt system lywodraethu effeithiol ac effeithlon ar waith. Mae hyn er mwyn sicrhau bod dogfennau sy'n ymwneud â rhedeg y practis deintyddol, gan gynnwys ffolderi personol y staff, yn cael eu ffeilio mewn modd trefnus ac effeithlon sy'n diogelu natur gyfrinachol a sensitif y wybodaeth Cadw gwaith papur mewn modd diogel a saf a pheidio â'i bentyrru'n ansicr yn y man aros Symud argraffydd y cyfrifiadur i ardal sy'n sicrhau preifatrwydd a chyfrinachedd y dogfennau y gellir eu hargraffu 	<p>Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd; Rheoliad 8 (1), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p>	<p>Ffeilio dogfennau'r practis deintyddol yn drefnus.</p> <p>Cadw gwaith papur mewn modd saf a diogel.</p> <p>Symud yr argraffydd i ardal sy'n sicrhau preifatrwydd a chyfrinachedd y dogfennau y gellir eu hargraffu.</p> <p>I fod ar gael i'w harchwilio.</p>	<p>Edward Webster a Christopher Davies</p>	<p>Yn barhaus</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod gan yr holl staff wiriad manylach dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y gweithlu plant ac oedolion cyn dechrau cyflogaeth gyda'r practis deintyddol Sicrhau bod pob aelod o'r staff clinigol sy'n cymryd rhan mewn gweithdrefnau a allai arwain at gysylltiad yn gallu dangos ei fod wedi cael ei frechu ar gyfer hepatitis B a'i fod wedi cael ymateb imiwnyddol boddhaol Darparu arfarniadau blynyddol i'r staff Cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd sydd wedi'u cofnodi Sicrhau bod hyfforddiant gorfodol (gan gynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth a 	<p>7.1 Gweithlu; Rheoliad 17 ac Atodlen 3, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p>	<p>Dylai pob aelod o staff gael gwiriad manylach dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y gweithlu plant ac oedolion.</p> <p>Llunio polisi i sicrhau bod gan bob aelod o staff wiriad manylach dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y gweithlu plant ac oedolion.</p> <p>Sicrhau bod yr holl staff yn gallu dangos brechiad ag ymateb imiwnyddol boddhaol ar gyfer hepatitis B.</p> <p>Darparu arfarniadau blynyddol i'r holl staff.</p> <p>Cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd sydd wedi'u cofnodi.</p> <p>Sicrhau bod hyfforddiant gorfodol yn gyfredol i bob aelod o staff ar bob adeg.</p>	<p>Edward Webster a Christopher Davies</p>	<p>Diwedd Gorffennaf 2022</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
diogelwch tân) yn gyfredol i bob aelod o staff ar bob adeg		Sicrhau bod hyfforddiant gorfodol yn gyfredol i bob aelod o staff ar bob adeg. I fod ar gael i'w harchwilio.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth: Edward Webster
Enw (llythrennau bras): Edward Webster
Swydd: Rheolwr cofrestredig
Dyddiad: 6/6/22

